ATODIAD 1

# Adroddiad Gwrthwynebu – Medi 2026

## Cynnig i gau Ysgol Baladeulyn

Cynnwys


1. CEFNDIR ........ 3

2. TROSOLWG O'R GWRTHWYNEBIADAU A'R PRIF THEMÂU ........ 4

3. CRYNODEB O’R GWRTHWYNEBIADAU STATUDOL AC YMATEB Y CYNGOR ........ 7

**Thema 1: Addysg a Phrofiadau Dysgwyr yn Ysgol Baladeulyn, ac Effaith y Cynnig ar y Ddarpariaeth Bresennol** ........ 7

**Thema 2: Effaith emosiynol y Cynnig ar Ddysgwyr, Staff a Theuluoedd** ........ 12

**Thema 3: Effaith y Cynnig ar yr Iaith Gymraeg** ........ 15

**Thema 4: Effaith y Cynnig ar Gludiant a Threfniadau Teithio** ........ 20

**Thema 5: Y Gymuned Leol ac Effaith y Cynnig ar ei Ddyfodol** ........ 23

**Thema 6: Gwrthwynebiadau i’r Cynnig a Cheisiadau i’w Ailystyried** ........ 31

**Thema 7: Opsiynau Amgen** ........ 33

**Thema 8: Heriau i’r Broses Statudol a Sail y Cynnig** ........ 37

# 1. CEFNDIR

Ar 11 Chwefror 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn a rhanddeiliaid perthnasol eraill ynghylch dyfodol yr ysgol, yn sgil pryderon ynghylch niferoedd dysgwyr yr ysgol. Yn dilyn hynny, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol i ystyried sefyllfa'r ysgol ac ystod o opsiynau posibl ar gyfer ei dyfodol.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gefnogi argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori statudol rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd rhanddeiliaid a'r cyhoedd gyfle i gyflwyno eu safbwyntiau ar y cynnig. Wedi hynny, paratowyd Adroddiad Ymgynghori yn crynhoi'r materion a godwyd a darparu ymatebion y Cyngor i'r materion hynny.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori i Gabinet Cyngor Gwynedd ar 19 Mai 2026. Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar 3 Mehefin 2026. Y cynnig a gyhoeddwyd drwy'r hysbysiad statudol oedd cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Mae copi o'r hysbysiad statudol a'r dogfennau cysylltiedig ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, cafodd unrhyw unigolyn gyfle i wrthwynebu'r cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 30 Mehefin 2026.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru ac mae'n crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r prif faterion a godwyd.

## 2. TROSOLWG O'R GWRTHWYNEBIADAU A'R PRIF THEMÂU

Derbyniwyd 25 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Yn ogystal, derbyniwyd deiseb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda 500 o lofnodion. Galwodd y ddeiseb ar y Cyngor i ailystyried y cynnig i gau Ysgol Gynradd Baladeulyn gan roi ystyriaeth lawn i effeithiau hirdymor y cynnig ar les disgyblion, gynaliadwyedd y gymuned leol a'r Gymraeg. Gofynnwyd os yw pob opsiwn realistig arall, megis ffederaleiddio neu gydweithio ag ysgolion eraill, wedi cael eu harchwilio'n llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol. Mae'r materion a godwyd yn y ddeiseb wedi'u cynnwys o fewn y themâu perthnasol yn Adran 3 o'r adroddiad, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny.

Roedd y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn codi nifer o faterion mewn perthynas â'r cynnig. Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

- cryfderau'r ddarpariaeth addysgol bresennol a manteision ysgol fach;
- yr amgylchedd cefnogol, gofalgar a'r gefnogaeth unigol a ddarperir i ddysgwyr;
- effaith emosiynol a llesol y cynnig ar ddysgwyr, staff a theuluoedd;
- effaith y cynnig ar y Gymraeg a'i chynaliadwyedd yn y gymuned;
- rôl ganolog yr ysgol ym mywyd a chynaliadwyedd y gymuned leol;
- galwadau i ystyried opsiynau amgen cyn cau'r ysgol; a
- gwrthwynebiad i'r cynnig a galwadau i'w ailystyried.

Roedd y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn codi nifer o faterion mewn perthynas â'r cynnig. Y materion mwyaf cyffredin oedd cryfderau'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Baladeulyn a manteision ysgol fach wledig, effaith bosibl y cynnig ar les a phrofiadau dysgwyr, effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg a'i rôl o fewn y gymuned leol, a rôl yr ysgol fel canolbwynt cymunedol sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd yr ardal. Cyfeiriwyd hefyd yn aml at effaith emosiynol y cynnig ar ddysgwyr, staff a theuluoedd, ynghyd â phryderon ynghylch trefniadau teithio a throsglwyddo i ysgol amgen. Roedd nifer sylweddol o wrthwynebwyr hefyd yn galw ar y Cyngor i ailystyried y cynnig ac i roi ystyriaeth bellach i opsiynau amgen a allai ganiatáu i'r ysgol barhau i wasanaethu'r gymuned leol.

Er mwyn cyflwyno'r gwrthwynebiadau mewn modd clir a strwythuredig, mae'r materion a godwyd wedi'u grwpio o dan nifer o themâu ac is-themâu. Mae'r rhestr gynnwys thematig isod yn nodi strwythur Adran 3, lle cyflwynir crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol o dan bob thema ac is-thema, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt.

**Thema 1:** Addysg a Phrofiadau Dysgwyr yn Ysgol Baladeulyn, ac Effaith y Cynnig ar y Ddarpariaeth Bresennol

1.1 Ansawdd uchel yr addysg a ddarperir
1.2 Amgylchedd gynhwysol a chefnogol sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn
1.3 Profiadau addysgol a datblygiad personol tu hwnt i'r dosbarth
1.4 Symud i ddarpariaeth addysg mewn ysgol fwy (Ysgol Talysarn), a sut mae hynny'n cymharu gyda'r ddarpariaeth bresennol

**Thema 2:** Effaith Emosiynol y Cynnig ar Ddysgwyr, Staff a Theuluoedd Lleol

2.1 Effaith emosiynol y cynnig ar ddysgwyr
2.2 Effaith emosiynol y cynnig ar staff a theuluoedd yr ysgol

**Thema 3:** Effaith y Cynnig ar yr Iaith Gymraeg

3.1 Rôl yr ysgol wrth gynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ardal Nantlle
3.2 Effaith y cynnig ar gynnydd tuag at nodau sirol a chenedlaethol
3.3 Effaith y cynnig ar ddyfodol yr iaith Gymraeg yn y gymuned

**Thema 4:** Effaith y Cynnig ar Gludiant a Threfniadau Teithio

4.1 Cymhwysedd i gludiant am ddim i'r ysgol amgen
4.2 Effaith trefniadau teithio newydd ar les dysgwyr Ysgol Baladeulyn

**Thema 5:** Y Gymuned Leol ac Effaith y Cynnig ar ei Ddyfodol

5.1 Yr ysgol fel canolbwynt cymunedol
5.2 Cyfraniad yr ysgol at hunaniaeth a llesiant y gymuned
5.3 Rôl yr ysgol wrth gefnogi teuluoedd mewn ardal wledig gyda gwasanaethau cyfyngedig
5.4 Effaith y cynnig ar ddyfodol a chynaliadwyedd y gymuned
5.5 Demograffeg yr ardal leol
5.6 Effaith y cynnig ar deuluoedd a deniadoldeb yr ardal leol

**Thema 6:** Gwrthwynebiadau i’r Cynnig a Galwadau i’w Ailystyried

6.1 Gwrthwynebiadau i’r cynnig
6.2 Galw i gadw’r ysgol ar agor, atal neu ail-ystyried y cynnig

**Thema 7:** Opsiynau Amgen

7.1 Gofyn am roi ystyriaeth lawn i opsiynau amgen
7.2 Cynllun adfer i ysgolion bach
7.3 Cynaliadwyedd a Pholisi Cyllido Ysgolion Bach

**Thema 8:** Heriau i’r Broses Statudol a Sail y Cynnig

8.1 Beirniadaeth ar sail y cynnig
8.2 Effaith y cynnig ar yr ysgol amgen a’r ysgolion cyfagos
8.3 Gweithrediad y Cyngor o’r broses statudol
8.4 Herio cyfreithlondeb y cynnig ac ôl-ddefnydd y safle
8.5 Digonolrwydd y ddogfennau ymgynghori
8.6 Digonolrwydd yr asesiadau effaith
8.7 Cyfeiriad at bolisïau addysg ehangach a chyfeiriad Moderneiddio Addysg yng Ngwynedd
8.8 Herio’r polisi mynediad sy’n caniatáu rhieni i ddewis ysgol eu plentyn

## 3. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU STATUDOL AC YMATEB Y CYNGOR

Yn unol â gofynion Adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny. Er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r gwrthwynebiadau, maent wedi'u grwpio o dan nifer o themâu ac is-themâu.

### Thema 1: Addysg a Phrofiadau Dysgwyr yn Ysgol Baladeulyn, ac Effaith y Cynnig ar y Ddarpariaeth Bresennol

1.1 Ansawdd uchel yr addysg a ddarperir

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn dangos lefel uchel o hyder a chefnogaeth yn ansawdd yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn. Disgrifir yr ysgol fel sefydliad cefnogol, gofalgar ac effeithiol sy'n cynnig addysg o safon uchel mewn amgylchedd clos Cymraeg, a bod yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar addysg, hyder a hapusrwydd y plant. Ategir hyn gan dystiolaeth o brofiadau personol gan gyn-ddisgyblion sy'n disgrifio mynychu'r ysgol fel braint. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg ac fe'i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r asesiad diwygiedig yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Baladeulyn wedi'i werthuso fel 'Da' gan Arolygiad Estyn, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cynnig profiad addysgol cadarnhaol i'r dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Yn yr un cyd-destun, mae'r Cyngor o'r farn fod y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Talysarn, fel yr ysgol amgen arfaethedig, yn cynnwys dosbarthiadau o faint mwy addas ag ystod oed llai, a all gynnig manteision i rai dysgwyr. Gallai hyn gynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda chyfoedion o'r un oed.<br><br>Fodd bynnag, nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i seilio ar dystiolaeth ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir.<br><br>Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i rai dysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |

1.2 Amgylchedd gynhwysol a chefnogol sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n pwysleisio'r amgylchedd cynhwysol, cefnogol a chroesawgar a ddarperir gan Ysgol Baladeulyn. Mynegwyd barn fod gan yr ysgol gymuned glos sy'n cynnig mwy na darpariaeth addysgol yn unig, yn darparu cefnogaeth unigol i ddysgwyr ac ymdeimlad cryf o berthyn. Cyfeiriwyd at fanteision arbennig ysgol fach a gwledig, gyda rhai gwrthwynebwyr yn nodi bod yr ymdeimlad o gymuned a theulu yn nodwedd unigryw a gwerthfawr o'r ddarpariaeth bresennol.<br><br>Nodwyd hefyd fod ysgolion gwledig fel Ysgol Baladeulyn yn darparu amgylchedd cartrefol sydd o fudd i ddysgwyr. Disgrifiwyd yr ysgol fel amgylchedd sy'n helpu plant i ffynnu'n academaidd ac yn bersonol. Ategwyd y safbwyntiau hyn gan dystiolaeth o brofiad personol ynghylch yr effaith gadarnhaol a gafodd yr ysgol ar addysg, hyder a hapusrwydd plant | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr drwy'r asesiadau effaith a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith Deddf Llesiant, ynghyd ag asesiadau perthnasol eraill. Mae'r asesiadau hyn ar gael ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ) fel rhan o'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ystod y broses statudol.<br><br>Nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, pe byddai'r cynnig yn cael ei |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| ynghyd a rhai ymatebwyr yn nodi fod plant presennol y pentref yn hapus yn yr ysgol. | weithredu, y rhagwelir y byddai’r ddarpariaeth yn Ysgol Talysarn yn cynnwys mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda’r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr.<br><br>Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai anghenion pob dysgwr yn cael eu hystyried yn unigol wrth gynllunio’r trefniadau pontio i Ysgol Talysarn. Byddai hyn yn cynnwys ystyried lles emosiynol y dysgwyr, unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt, a’r camau priodol i’w cynorthwyo i ymgyfarwyddo â’r ysgol a’r amgylchedd dysgu newydd. |

1.3 Profiadau addysgol a datblygiad personol tu hwnt i’r dosbarth

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n tynnu sylw at y cyfleoedd gwerthfawr a’r profiadau addysgol a geir gan ddysgwyr mewn ysgol fach fel Ysgol Baladeulyn i ddatblygu sgiliau personol y tu hwnt i'r dosbarth. Mynegwyd y farn bod maint yr ysgol yn galluogi pob plentyn i dderbyn sylw ac i gymryd rhan yn llawn mewn ystod eang o weithgareddau a chyfrifoldebau. Cyfeiriwyd at gyfleoedd i wasanaethu ar y Cyngor Ysgol, ymgymryd â rolau amser chwarae, cymryd rhan mewn cyflwyniadau cyhoeddus ac arwain mewn gwasanaethau ysgol yn aml. Nododd rhai gwrthwynebwyr fod y profiadau hyn yn sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn cael ei eithrio o gyfleoedd ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu hyder, hunan-barch a gwydnwch. | Mae'r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor o'r farn bod profiadau a gweithgareddau addysgol i ddatblygu sgiliau personol y tu hwnt i'r dosbarth wedi'i chyfyngu i ysgolion bach yn unig, ac y ceir cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau megis cyflwyniadau, gwasanaethau ac eisteddfodau mewn ysgolion mwy hefyd. Gall ysgolion mwy, oherwydd eu maint a’u nifer uwch o ddysgwyr, ddarparu ystod ehangach o adnoddau, profiadau dysgu, gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr.<br><br>Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr drwy'r asesiadau effaith a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Tynnwyd sylw hefyd at weithgareddau arbennig fel yr Eisteddfod leol a gynhelir ar y cyd ag Ysgol Nebo, yn ogystal â gweithgareddau awyr agored a theithiau lleol, lle nodwyd bod pob plentyn yn cael ei annog a'i gydnabod am ei gyfraniad, ble nodir fod y profiadau yn cyfrannu at wireddu dibenion Cwricwlwm i Gymru. | ymgynghori statudol. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad o’r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg ac Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, ynghyd ag asesiadau perthnasol eraill. Mae'r asesiadau hyn ar gael ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ) fel rhan o'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ystod y broses statudol.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai’r ddarpariaeth yn Ysgol Talysarn yn cynnig mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda’r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiadau addysgol dysgwyr. |

1.4 Symud i ddarpariaeth addysg mewn ysgol fwy (Ysgol Talysarn), a sut mae hynny’n cymharu gyda’r ddarpariaeth bresennol

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo dysgwyr Ysgol Baladeulyn i ysgol fwy, sef Ysgol Talysarn fel yr ysgol amgen dynodedig, gan gwestiynu a fyddai hyn yn arwain at welliant yn ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Nododd rhai gwrthwynebwyr nad yw maint ysgol ynddo'i hun yn gwarantu addysg well, ac nad oeddent yn derbyn y dybiaeth y byddai ysgol fwy yn cynnig canlyniadau addysgol gwell i ddysgwyr. Mynegwyd hefyd y farn y dylai'r Cyngor ddarparu tystiolaeth glir o sut y byddai'r cynnig yn cynnal neu'n gwella'r ddarpariaeth addysgol a geir ar hyn o bryd yn Ysgol Baladeulyn. | Mae'r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe’i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae’r asesiad diwygiedig yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Baladeulyn wedi’i werthuso fel ‘Da’ gan Estyn, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cynnig profiad addysgol cadarnhaol i’r dysgwyr sy’n mynychu’r ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Yn yr un cyd-destun, mae’r Cyngor o’r farn fod y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Talysarn, fel yr ysgol amgen arfaethedig, yn cynnwys dosbarthiadau o |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd pryderon pellach yn ymwneud â'r posibilrwydd o golli rhai o fanteision unigryw ysgol fach. Cyfeiriwyd at y gefnogaeth unigol a'r sylw personol a ddarperir i ddysgwyr, gyda rhai gwrthwynebwyr yn dadlau y gallai fod llai o gapasiti i ddarparu'r un lefel o gefnogaeth mewn ysgol fwy. Nodwyd hefyd fod ysgolion bach yn cynnig amgylchedd gofalgar a meithringar sy'n anodd ei ail-greu mewn lleoliadau mwy, a mynegwyd pryderon arbennig ynghylch yr effaith bosibl ar ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gyda rhai yn dadlau bod dosbarthiadau llai ac amgylchedd ysgol fach yn fwy buddiol i ddiwallu eu hanghenion.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod ysgolion bach yn cynnig cyfleoedd i bob dysgwr gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau ysgol. Er bod rhai ymatebwyr yn cydnabod y gall profiadau o ysgolion mawr ac ysgolion bach fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, roedd y gwrthwynebiadau ar y cyfan yn adlewyrchu pryder ynghylch colli manteision y ddarpariaeth bresennol ysgol fach yn Ysgol Baladeulyn. | faint mwy addas gyda ystod oed llai, a all gynnig manteision i rai dysgwyr. Mae’r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda chyfoedion o’r un oed.<br><br>Fodd bynnag, nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi’i gynnal gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy’n parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill. Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu’r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, ac deuir i’r gasgliad bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i’r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i ddysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o’r un oedran.<br><br>Yn ogystal, nid yw'r Cyngor o'r farn bod cefnogaeth effeithiol i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol wedi'i chyfyngu i ysgolion bach yn unig. Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i adnabod ac ymateb i anghenion ei dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyda mynediad at wasanaethau ac arbenigeddau perthnasol yn unol ag anghenion unigol y dysgwr.<br><br>Yn ogystal, gall ysgolion mwy, oherwydd eu maint a’u nifer uwch o ddysgwyr, ddarparu ystod ehangach o adnoddau, profiadau dysgu, gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr, ynghyd â mynediad at gymorth a chefnogaeth briodol yn unol â'u hanghenion unigol. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai’r ddarpariaeth yn Ysgol Talysarn yn cynnig mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda’r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr. |

## Thema 2: Effaith emosiynol y Cynnig ar Ddysgwyr, Staff a Theuluoedd

2.1 Effaith emosiynol y cynnig ar ddysgwyr

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryder sylweddol ynghylch yr effaith emosiynol a llesol y gallai'r cynnig ei chael ar ddysgwyr Ysgol Baladeulyn. Mynegwyd y farn y gallai'r newid gael effaith negyddol ar les emosiynol rhai dysgwyr. Nododd gwrthwynebwyr y gallai gorfod symud o amgylchedd ysgol bach, cyfarwydd a chefnogol i ysgol fwy greu aflonyddwch i’r dysgwyr. Cyfeiriwyd yn benodol at y posibilrwydd o golli'r gefnogaeth bersonol a'r ymdeimlad o berthyn sydd ganddynt gan y ddarpariaeth bresennol.<br><br>Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr aflonyddwch y byddai'r newid yn ei achosi i fywydau bob dydd y plant, gan gynnwys yr angen i greu ffrindiau newydd, ymgyfarwyddo â staff newydd a theithio yn hirach i’r ysgol. Pwysleisiwyd y gallai'r cyfnod pontio hwn fod yn heriol i blant ac y dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar eu lles. Mynegwyd pryder penodol hefyd ynghylch amseriad y cynnig, gyda rhai yn nodi y gallai symud ysgol yng | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r dyfodol mewn perthynas a’r cynnig, ac fe’i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o’r broses.<br><br>Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod, pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, y gall fod peth effaith negyddol ar les dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai’r awdurdod a’r ysgol amgen yn cydweithio’n agos â’r ysgol sy’n cau, gyda’r dysgwyr a’u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi’r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgol newydd. Rhagwelir y byddai trefniadau pontio |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| nghanol blwyddyn academaidd neu cyn gwyliau'r Nadolig waethygu'r effaith emosiynol ar ddysgwyr. | sydd wedi’u cynllunio’n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru effeithiau negyddol ac yn cefnogi parhad cynnydd addysgol. |

2.2 Effaith emosiynol y cynnig ar staff a theuluoedd yr ysgol

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n tynnu sylw at yr effaith emosiynol sylweddol y gallai'r cynnig ei chael ar staff, dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mynegwyd y farn y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn achosi tristwch mawr ymhlith y rhai sydd â chysylltiadau personol a phroffesiynol â'r ysgol, gan gynnwys aelodau staff sydd wedi gwasanaethu'r ysgol dros gyfnodau hir. Cyfeiriodd rhai gwrthwynebwyr at y teimlad o ansicrwydd a grëwyd gan y cynnig, gan nodi ei fod eisoes wedi cael effaith ar benderfyniadau personol a phroffesiynol. Mynegwyd pryder hefyd nad oedd effaith y cynnig ar swyddi a chyflogaeth staff wedi cael digon o sylw yn ystod y broses benderfynu.<br><br>Pwysleisiodd gwrthwynebwyr hefyd yr effaith niweidiol y gallai’r cynnig ei chael ar deuluoedd lleol, gan nodi bod gan lawer o deuluoedd gysylltiad hirsefydlog â'r ysgol, gyda nifer o genedlaethau wedi ei mynychu dros y blynyddoedd. Nodwyd y byddai cau'r ysgol yn creu ymdeimlad o golled a thristwch ymhlith y teuluoedd a thrigolion yma, ac roedd rhai o'r farn nad oedd y goblygiadau emosiynol i'r gymuned wedi cael eu hystyried yn llawn. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 yn cael ei wireddu, cydnabyddir y bydd goblygiadau staffio a allai arwain at ddiswyddiadau, gan y byddai’r swyddi presennol yn dod i ben pe byddai’r ysgol yn cau.<br><br>Drwy gydol y broses statudol, mae’r Cyngor wedi cyfathrebu’n eglur ac agored gyda staff  Ysgol Baladeulyn. Ymgynghorwyd yn benodol a staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o’r cyfnod ymgynghori statudol. Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn benodol  gyda staff gyda swyddogion o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol, ac anogwyd i unrhyw aelod o staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol ar unrhyw adeg os oedden nhw’n dymuno cael trafodaeth un i un.<br><br>Nodir y bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o’r cynnig gydymffurfio â’r gyfraith gyflogaeth angenrheidiol a chynllun Diswyddo Gwynedd.<br><br>Yn ogystal, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith Debygol ar y Gymuned, ac fe’i diweddarwyd |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o'r broses.<br><br>Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i gadarnhau'r cynnig, y byddai'r cynnig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodir fod cyfran helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch (75%) yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Talysarn, eisoes yn bodoli. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys cymuned Nantlle lle'n briodol.<br><br>Yn ogystal, nodir pe byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael ei wireddu, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. Nodir bod Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol yn yr ardal yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn. |

## Thema 3: Effaith y Cynnig ar yr Iaith Gymraeg

3.1 Rôl yr ysgol wrth gynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ardal Nantlle

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer sylweddol o'r gwrthwynebiadau'n pwysleisio rôl allweddol Ysgol Baladeulyn wrth gynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ardal Nantlle. Mynegodd gwrthwynebwyr y farn bod yr ysgol yn darparu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel iaith fyw o ddydd i ddydd, gan gefnogi datblygiad ieithyddol a chryfhau defnydd y Gymraeg ymysg plant a theuluoedd lleol.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at rôl yr ysgol fel canolfan bwysig ar gyfer y Gymraeg, y gymuned leol a'r diwylliant Cymraeg. Nododd gwrthwynebwyr fod Ysgol Baladeulyn yn chwarae rhan ganolog ym mywyd y gymuned ac yn cyfrannu at gynnal cymuned Gymraeg wledig, gan fynegi pryder y gallai colli'r ddarpariaeth arwain at lai o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio, datblygu a chynnal eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Yn ychwanegol, cyfeiriwyd at wahaniaethau yn lefel defnydd y Gymraeg rhwng y ddwy ysgol, gyda rhai ymatebwyr yn nodi bod canran y siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Baladeulyn yn uwch nag yn Ysgol Talysarn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad Effaith Ieithyddol mewn perthynas a'r cynnig. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried yn llawn y sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o'r broses.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Baladeulyn ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned. Roedd nifer o'r sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r cyfnod gwrthwynebu yn nodi bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd hefyd y gallai cau'r ysgol leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol a gwanhau'r broses o drosglwyddo'r iaith rhwng cenedlaethau, a bydd hyn yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd y Gymraeg yn ardal Nantlle.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fyddai rhieni/ gwarchodwyr/ teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant dysgwyr o'r ysgol neu yn ystod gweithgareddau'r ysgol. |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.<br><br>Yn y cyd-destun addysgol, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol y dysgwyr, am y rhesymau canlynol:<br>• Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn.<br>• Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.<br>• Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, a rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.<br>• Rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i'r dysgwyr defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. |

3.2 Effaith y cynnig ar gynnydd tuag at nodau sirol a chenedlaethol

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau'n dadlau y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar gynnydd tuag at nodau sirol a chenedlaethol sy'n ymwneud â hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mynegwyd y farn bod Ysgol Baladeulyn wedi'i lleoli mewn ardal a ystyrir yn gadarnle i'r Gymraeg, a bod ysgolion lleol yn rhan bwysig o'r seilwaith ieithyddol sy'n cynnal cymunedau Cymraeg.<br><br>Nodwyd hefyd fod ysgolion gwledig yn gweithredu fel angorau cymunedol ac ieithyddol sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd a gwydnwch cymunedau lleol, a dadleuwyd y gallai cau'r ysgol fod yn groes i amcanion y Cyngor a Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleol.<br><br>Cyfeiriodd rhai gwrthwynebwyr yn benodol at darged cenedlaethol Cymraeg 2050 o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, gan fynegi'r farn y byddai cau ysgol mewn ardal Gymraeg ei hiaith yn tanseilio cynnydd tuag at y nod hwnnw.<br>Cyfeiriwyd hefyd at safbwyntiau a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd gwledig er mwyn gwarchod treftadaeth ddiwylliannol a sicrhau mynediad lleol i addysg. | Fel uchod (gweler ymateb 3.1).<br><br>Yn ychwanegol, mae'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg yn nodi'r canlynol:<br><br>Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, mynegwyd barn cryf gan rai gwrthwynebwyr fod y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn mynd yn groes i nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru gan fod Ysgol Baladeulyn yn gwasanaethu ardal sydd yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, a byddai colli'r ysgol arwain at leihad graddol yn y defnydd o'r Gymraeg. Pwysleisiwyd rôl hanfodol ysgolion wledig fel Ysgol Baladeulyn wrth gynnal a hyrwyddo diwylliant lleol a'r iaith Gymraeg mewn cymunedau gwledig. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol arwain at lai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol o fewn y gymuned, gan gyfeirio at weithgareddau'r ysgol ble mae trigolion lleol a theuluoedd medru rhyngweithio.<br><br>Nodir fod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/ gwarchodwyr/ teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu dysgwyr o'r ysgol neu yn ystod gweithgareddau'r ysgol. |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ffederasiwn Talaerau (ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Baladeulyn yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. Nodir bod Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol yn yr ardal yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn.<br><br>O ran y ddarpariaeth addysgol, nodir bod Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Categori 3. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, yn bennaf gan:<br><br>• fod ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwr Ysgol Talysarn<br>• y byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3.<br>• y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleodd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | Ar sail yr uchod, o weithredu’r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio’r Gymraeg yn anffurfiol gyda’u cyfoedion tu mewn a thu allan i’r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a’r defnydd anffurfiol o’r iaith yn gryfach.<br><br>Mae'r asesiadau effaith llawn ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |

3.3 Effaith y cynnig ar ddyfodol yr iaith Gymraeg yn y gymuned

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryder ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Baladeulyn ei chael ar ddyfodol yr iaith Gymraeg yn y gymuned leol. Mynegodd gwrthwynebwyr y farn bod yr ysgol yn chwarae rhan allweddol wrth drosglwyddo'r Gymraeg a diwylliant lleol i genedlaethau'r dyfodol, ac y gallai colli'r ddarpariaeth danseilio'r broses honno.<br><br>Pwysleisiodd rhai gwrthwynebwyr fod Ysgol Baladeulyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynaliadwyedd y Gymraeg yn Nyffryn Nantlle ac at gryfder y gymuned Gymraeg leol, a cyfeiriwyd at bryderon ynghylch effaith niweidiol bosibl ar ddefnydd dyddiol y Gymraeg yn y pentref, gyda rhai yn nodi y byddai cau'r ysgol yn ergyd sylweddol i'r Gymraeg a’i | Fel uchod (gweler ymateb 3.1). |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| chynaliadwyedd, ac yn cyflymu dirywiad yn y defnydd o'r iaith o fewn y gymuned.<br><br>Mynegwyd hefyd bryderon ynghylch y goblygiadau hirdymor i addysg gynradd Gymraeg ac i ddyfodol cymunedau gwledig Cymraeg yn ehangach, gyda rhai yn cyfeirio at batrymau presennol o ddirywiad mewn cymunedau Cymraeg eisoes. | |

## Thema 4: Effaith y Cynnig ar Gludiant a Threfniadau Teithio

4.1 Cymhwysedd i gludiant am ddim i’r ysgol amgen

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n codi pryderon ynghylch trefniadau cludiant i'r ysgol amgen a'r effaith bosibl ar deuluoedd pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau. Mynegwyd ansicrwydd ynghylch cymhwysedd dysgwyr all-dalgylch i dderbyn cymorth cludiant gan y Cyngor, gyda rhai gwrthwynebwyr yn galw am wybodaeth glir ynghylch y trefniadau a fyddai'n berthnasol i'r teuluoedd hynny a'u hawl i gludiant am ddim.<br><br>Pwysleisiwyd hefyd yr angen i ystyried goblygiadau hirdymor unrhyw newid i'r trefniadau cludiant cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion y broses statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar drefniadau teithio mewn perthynas â’r cynnig, ac fe’i diweddarwyd yn dilyn ystyriaeth o’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>Fe nodir yn yr asesiad effaith, pe byddai’r opsiwn o gau Ysgol Baladeulyn a chynnig addysg i’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio i’r plant. Fodd bynnag ni |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Codwyd cwestiynau penodol ynghylch a fyddai darpariaeth cludiant ysgol y Cyngor yn ymestyn i ddysgwyr tair a phedair oed, ynghyd â os fydd trefniadau diogelwch ar waith ar gyfer plant ifanc sy'n teithio i ysgol amgen.<br><br>Mynegwyd hefyd pryderon am y costau ychwanegol y gallai rhai teuluoedd eu hwynebu o ganlyniad i orfod teithio pellteroedd mwy, gan gynnwys costau tanwydd, a gofynnwyd gan rai gwrthwynebwyr a fyddai cymorth ariannol yn cael ei ddarparu i liniaru'r costau ychwanegol hyn. | ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i’r ysgol. Nodir y byddai cludiant ysgol i’r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd lle bo’n berthnasol, ac ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i’r ysgol na defnyddio llwybrau i’r ysgol a ystyrir yn anniogel.<br><br>Yn unol â Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy’n byw 2 filltir neu fwy o’r ysgol yn eu dalgylch, ysgol agosaf, neu pan fo dysgwyr yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae’r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn. Nid yw dysgwyr Meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw’r polisi’n rhagdybio bod rhieni’n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo dysgwr yn gymwys am gludiant statudol. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i’r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd, er hynny ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i’r ysgol. Nodir yn unol â’r polisi na fyddai dysgwyr sy’n byw y tu allan i’r dalgylch diwygiedig hwnnw yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol di dâl i Ysgol Talysarn. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn ystyried ceisiadau unigol mewn amgylchiadau unigryw. Mae’r polisi cludiant i’w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rieni<br><br>Mae'r asesiad effaith debygol a drefniadau teithio ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |

4.2 Effaith trefniadau teithio newydd ar les dysgwyr Ysgol Baladeulyn

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
| --- | --- |
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryder ynghylch yr effaith y gallai trefniadau teithio newydd ei chael ar les dysgwyr pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau. Nododd gwrthwynebwyr y byddai rhai plant yn wynebu teithiau hirach i ysgol amgen, a mynegwyd y farn y gallai hyn gael effaith negyddol ar eu lles, yn enwedig yn achos plant ifanc.<br><br>Codwyd hefyd faterion yn ymwneud â diogelwch a theithio llesol. Nododd rhai gwrthwynebwyr fod llawer o blant yn gallu cerdded i Ysgol Baladeulyn yn ddiogel ar hyn o bryd, gan ddatblygu hyder ac annibyniaeth drwy wneud hynny. Mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn golygu colli'r cyfle hwn i blant lleol, gan nad oes llwybr cerdded diogel rhwng Nantlle a Thalysarn. O ganlyniad, gofynnwyd a fyddai'r Cyngor yn ystyried buddsoddi mewn llwybr addas i gysylltu'r ddau bentref. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion y broses statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith Debygol ar drefniadau teithio mewn perthynas â'r cynnig, ac fe'i diweddarwyd yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>Fe nodir yn yr asesiad effaith, pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio y dysgwyr. Fodd bynnag ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol, na defnyddio llwybrau i'r ysgol a ystyrir yn anniogel.<br><br>Nodir y byddai cludiant ysgol i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd lle bo'n berthnasol. Yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, darperir cludiant lle bernir bod y llwybr cerdded yn beryglus neu'n anaddas, waeth beth fo'r pellter. Caiff llwybrau cerdded eu hasesu'n fanwl yn unol â'r polisi, gan ystyried ffactorau megis natur y ffordd, cyfaint a chyflymder traffig, a diogelwch cyffredinol ar adegau perthnasol o'r dydd.<br><br>Mae'r Polisi i'w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rieni.<br><br>O safbwynt y ceisiadau ynglŷn a buddsoddiad mewn llwybr cerdded pwrpasol i gysylltu pentrefi Nantlle a Thalysarn, byddai unrhyw ystyriaeth o ddatblygu neu ariannu llwybr o'r fath y tu allan i gwmpas y cynnig statudol hwn, a byddai angen ei asesu ar wahân drwy drefniadau cynllunio a chyllido priodol. |

## Thema 5: Y Gymuned Leol ac Effaith y Cynnig ar ei Ddyfodol

5.1 Yr ysgol fel canolbwynt cymunedol

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer sylweddol o'r gwrthwynebiadau'n pwysleisio rôl Ysgol Baladeulyn fel canolbwynt allweddol i fywyd cymunedol yr ardal. Disgrifiwyd yr ysgol gan lawer o ymatebwyr fel ased cymunedol hanfodol sy’n chwarae rhan ganolog yn y gymuned leol.<br><br>Mynegwyd y farn bod yr ysgol yn llawer mwy na lleoliad addysgol, gan weithredu fel man cyfarfod i drigolion ac fel canolfan gymdeithasol sy'n cefnogi bywyd teuluol, defnydd y Gymraeg a diwylliant lleol. Nododd rhai gwrthwynebwyr fod ysgolion gwledig fel Ysgol Baladeulyn yn chwarae rhan unigryw ym mywyd pentrefi gwledig ac, unwaith y cânt eu cau, ei bod yn anodd iawn adfer neu ddisodli'r rôl gymunedol a gyflawnwyd ganddynt.<br><br>Cyfeiriwyd yn gyson at y modd y mae'r ysgol yn dod â phlant, teuluoedd a thrigolion lleol ynghyd drwy ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau. Roedd ymatebwyr yn nodi bod cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon, dathliadau, gweithgareddau codi arian a chynulliadau cymunedol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i gryfhau cysylltiadau cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o gymuned. Tynnwyd sylw hefyd at rôl yr ysgol fel canolfan gymdeithasol ac addysgol sy'n darparu cyfleoedd i deuluoedd a thrigolion lleol ddod ynghyd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Roedd rhai gwrthwynebwyr yn cyfeirio at brofiad uniongyrchol o weld sut mae gweithgareddau'r ysgol yn helpu i uno'r gymuned ac yn cyfrannu at fywiogrwydd bywyd lleol.<br><br>Mynegwyd pryder gan nifer o wrthwynebwyr am yr effaith y gallai cau'r ysgol ei chael ar ddyfodol y gymuned. Nodwyd y byddai colli'r ysgol yn ergyd sylweddol i fywyd y pentref ac yn golled fawr i drigolion lleol, nid yn | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar y gymuned leol. Mae’r asesiad hwn wedi’i adolygu a’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a’r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o’r broses.<br><br>Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir y cynnig  i gau Ysgol Baladeulyn, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle fel canolbwynt cymunedol. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a’r cyfnod gwrthwynebu ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Talysarn eisoes yn bodoli.<br><br>Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai’r Cyngor yn ceisio lliniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Baladeulyn a’r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny’n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau’r ysgol amgen. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| unig i ddysgwyr a'u teuluoedd. Nodwyd y byddai colli'r ysgol a'i gweithgareddau cysylltiedig yn effeithio ar wead cymdeithasol yr ardal drwy leihau cyfleoedd i bobl ddod ynghyd a chynnal cysylltiadau cymunedol. | Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

5.2 Cyfraniad yr ysgol at hunaniaeth a llesiant y gymuned

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n pwysleisio cyfraniad Ysgol Baladeulyn at hunaniaeth a llesiant y gymuned leol, ac ei bod yn cynnig mwy nag addysg yn unig. Nodwyd bod yr ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth feithrin ymdeimlad o berthyn ac wrth gynnal cysylltiadau cymdeithasol o fewn y pentref, ac ei bod yn ganolog i fywyd cymunedol lleol ers degawdau.<br><br>Cyfeiriodd rhai gwrthwynebwyr at rôl yr ysgol wrth gryfhau cysylltiadau rhwng cenedlaethau, sydd yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, gyda’r ysgol yn darparu digwyddiadau sy'n dod â phlant, teuluoedd a thrigolion lleol ynghyd. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar y gymuned leol. Mae’r asesiad hwn wedi’i adolygu a’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a’r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o’r broses.<br><br>Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a’r cyfnod gwrthwynebu ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Talysarn eisoes yn bodoli.<br><br>Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai’r Cyngor yn ceisio liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Baladeulyn a’r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny’n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau’r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

5.3 Rôl yr ysgol wrth gefnogi teuluoedd mewn ardal wledig gyda gwasanaethau cyfyngedig

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau'n tynnu sylw at y rôl y mae Ysgol Baladeulyn yn ei chwarae wrth gefnogi teuluoedd mewn ardal wledig lle mae gwasanaethau lleol yn gyfyngedig, ac eisoes dan straen. Mynegwyd fod yr ysgol yn darparu sefydlogrwydd ac adnodd pwysig i deuluoedd, a mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn amharu yn benodol ar drefniadau gofal plant presennol rhai teuluoedd, a chael effaith ar eu bywyd teuluol wrth golli gwasanaeth lleol ac un o brif adnoddau’r pentref. | Fel uchod (gweler ymateb 5.2).<br><br>Yn ogystal, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r dyfodol ac Asesiad Asesu’r Effaith ar Bobl Gwynedd. Fel rhan o’r asesiadau yma, aseswyd effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar gydlyniant y gymuned leol a theuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae’r asesiadau wedi’u hadolygu a’u diweddaru yn dilyn yr |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Mynegwyd hefyd bryderon am gostau ychwanegol i deuluoedd o ganlyniad i'r cynnig, gan gynnwys y posibilrwydd o orfod prynu gwisg ysgol newydd. | ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a’r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o’r broses.<br><br>Dengys yr asesiad effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r dyfodol pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, cydnabyddir y byddai’r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn, ac o safbwynt amddifadedd golyga hyn fod un o’r ddangosyddion, ‘mynediad i wasanaethau’, yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. Fodd bynnag, pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai’r ddarpariaeth yn Ysgol Talysarn yn cynnwys mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda’r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr.<br><br>Yn ogystal, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), sydd yn awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai’r Cyngor yn ceisio liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a’r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny’n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd Nantlle yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau’r ysgol amgen.<br>Yn ymhellach, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol ar Drefniadau Teithio. Fel rhan o’r asesiad yma, aseswyd effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai.<br><br>Byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Talysarn. Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol (amcan gost) rhwng £17,000 hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Er hynny, ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol, na cherddded neu feicio ar lwybrau peryglus i'r ysgol.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rieni Nodir yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, na fyddai dysgwyr sy'n byw y tu allan i'r dalgylch diwygiedig hwnnw yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol di dâl i Ysgol Talysarn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ystyried ceisiadau unigol mewn amgylchiadau unigryw.<br><br>Fel nodir yn yr asesiad Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd, mae Grant Hanfodion Ysgol ar gael i deuluoedd sydd yn gymwys ar gyfer cymorth i |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | brynu offer neu gwisg ysgol. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor: Cymorth a chefnogaeth ariannol gydag addysg. |

5.4 Effaith y cynnig ar ddyfodol a chynaliadwyedd y gymuned

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryder ynghylch effaith hirdymor y cynnig ar ddyfodol a chynaliadwyedd cymuned Nantlle, gan nodi bod Ysgol Baladeulyn yn rhan bwysig o'r gymuned ac y byddai ei chau yn effeithio ar lawer mwy na'r ddarpariaeth addysgol yn unig.<br><br>Nododd gwrthwynebwyr bod yr ysgol yn cyfrannu at gynaliadwyedd y gymuned, a byddai cau'r ysgol yn gwanhau'r gymuned leol drwy danseilio cydlyniant cymunedol, gan gael effaith niweidiol a hirdymor ar ddyfodol y pentref, y gymuned ehangach a chenedlaethau'r dyfodol. Mynegwyd y farn fod y cynnig yn adlewyrchu derbyn dirywiad y gymuned yn hytrach na buddsoddi yn ei hadfywio a'i chynnal ar gyfer y dyfodol, ac nad oedd rhai ymatebwyr yn gweld manteision i ardal Dyffryn Nantlle yn deillio o'r cynnig.<br><br>Dadleuodd rhai gwrthwynebwyr na fyddai trosglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn gallu amnewid y rôl y mae Ysgol Baladeulyn yn ei chwarae o fewn y gymuned leol, a mynegwyd pryder y byddai plant yn colli cysylltiad dyddiol â'u cymuned leol ac y gallai hyn effeithio ar eu hymdeimlad o berthyn. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar y gymuned leol. Mae’r asesiad hwn wedi’i adolygu a’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a’r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o’r broses.<br><br>Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a’r cyfnod gwrthwynebu ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Talysarn eisoes yn bodoli. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai’r Cyngor yn ceisio liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Baladeulyn a’r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny’n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau’r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

5.5 Demograffeg yr ardal leol

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau'n cysylltu'r cynnig â heriau demograffig ehangach sy'n wynebu cymunedau gwledig fel Nantlle. Mynegwyd y farn bod ffactorau megis diffyg tai i bobl leol, a chynnydd mewn tai haf wedi cyfrannu at yr heriau hyn. Nododd rhai gwrthwynebwyr fod y gymuned eisoes yn fregus oherwydd y dibyniaeth ar y diwydiant twristiaeth a newidiadau demograffig.<br><br>Mynegwyd pryder y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn cyfrannu at ddirywiad pellach yn y gymuned, gan gynnwys colli teuluoedd ifanc, a dadleuwyd gan rai y gallai cau ysgolion gwledig arwain at bentrefi bychain gwledig yn troi'n fwyfwy yn gyrchfannau twristiaeth. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Fel rhan o’r broses statudol, rhoddwyd ystyriaeth i ystod o ffactorau, gan gynnwys data diweddaraf am niferoedd dysgwyr sydd yn byw yn y dalgylch a’r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol. Dengys y wybodaeth oedd ar gael i’r Cyngor fod niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn isel iawn ar hyn o bryd, ac y rhagwelir y byddant yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.<br>Mae hyn yn adlewyrchu tuedd ddemograffig ehangach, gan gynnwys y diboblogi sy’n effeithio ar gymunedau gwledig. Rhwng 2011 a 2021, gostyngodd poblogaeth Gwynedd 3.7%, sef gostyngiad o 4,477 o bobl. Nid yw’r gostyngiad hwn wedi ei neilltuo i gymunedau gwledig yn unig. Yn ystod |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 7.3% yn nifer y plant 0–15 oed a gostyngiad o 14.7% yn nifer y bobl ifanc 16–24 oed.<br><br>Yn ogystal, nodir yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned fod rhai ymatebwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyfnod gwrthwynebu statudol wedi mynegi pryder y gallai cau'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, ddylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd ifanc ynghylch aros yn y gymuned neu symud i mewn iddi, o ystyried pwysigrwydd yr ysgol fel ased lleol.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryder hwn. Fodd bynnag, o ystyried y patrymau presennol o ddewis ysgol, gan gynnwys y ffaith bod cyfran helaeth o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all dalgylch, nid oes tystiolaeth glir y byddai'r cynnig, pe byddai'n cael ei weithredu, yn arwain yn uniongyrchol at ymadawiad teuluoedd na lleihad sylweddol mewn teuluoedd yn symud i'r gymuned. Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw bod cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o blant oedran cynradd o ddalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe bai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, o ystyried bod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned. |

5.6 Effaith y cynnig ar deuluoedd a pha mor ddeniadol yw'r ardal leol

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
| --- | --- |
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n tynnu sylw at rôl Ysgol Baladeulyn wrth gefnogi teuluoedd lleol a chyfrannu at ddeniadoldeb ardal Nantlle fel lle i fyw. Mynegwyd y farn bod presenoldeb ysgol leol yn ffactor pwysig wrth i deuluoedd wneud penderfyniadau ynghylch symud i'r ardal, a bod yr ysgol yn cynhyrchu budd cymunedol sylweddol drwy wasanaethu teuluoedd lleol a helpu i gynnal y gymuned.<br><br>Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at eu gobaith y byddai cenedlaethau'r dyfodol o'u teuluoedd yn cael y cyfle i fynychu Ysgol Baladeulyn a bod yn rhan o'r gymuned leol. Mynegwyd pryder hefyd y byddai cau'r ysgol yn gwneud yr ardal yn llai deniadol i deuluoedd ifanc a theuluoedd newydd sy'n ystyried symud i Nantlle. Nododd rhai gwrthwynebwyr y gallai hyn arwain at lai o deuluoedd yn dewis byw yn yr ardal yn y dyfodol, gyda goblygiadau ehangach i'r gymuned leol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned diwygiedig yn nodi nad oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd y gymuned na phatrymau poblogaeth y dalgylch. Mae cyfran uchel o blant dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o blant oedran cynradd o ddalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe bai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, o ystyried bod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned. |

## Thema 6: Gwrthwynebiadau i'r Cynnig a Cheisiadau i'w Ailystyried

6.1 Gwrthwynebiadau i'r cynnig

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
| --- | --- |
| Roedd pob un o'r ymatebion a dderbyniwyd o dan yr is-thema hon yn mynegi gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Roedd nifer o'r gwrthwynebwyr yn nodi'n glir eu bod yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda rhai yn mynegi gwrthwynebiad cryf neu lwyr i'r bwriad. | Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau. |

6.2 Galw i gadw’r ysgol ar agor, atal neu ail-ystyried y cynnig

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n cynnwys galwadau i Gyngor Gwynedd wrthod y cynnig a chadw Ysgol Baladeulyn ar agor. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn galw ar y Cyngor i ailystyried y penderfyniad, gan ystyried yn llawn ac yn ofalus effeithiau hir-dymor posibl y cynnig cyn dod i benderfyniad terfynol.<br><br>Gofynnodd rhai gwrthwynebwyr i'r Cyngor atal neu ohirio'r broses gau er mwyn caniatáu mwy o amser i ddod o hyd i ateb neu gynllun cynaliadwy ar gyfer dyfodol yr ysgol. Roedd eraill yn annog y Cyngor i weithredu'n ofalus ac yn gymesur wrth asesu'r cynnig, gan sicrhau bod yr holl effeithiau perthnasol wedi'u hystyried yn llawn cyn dod i benderfyniad. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r cynnig wedi’i ddatblygu a’i ystyried yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys cynnal ymgynghoriad statudol, cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori, cyhoeddi hysbysiad statudol, darparu cyfnod gwrthwynebu a llunio Adroddiad Gwrthwynebu.<br><br>Mae’r Cyngor yn hyderus bod y broses statudol wedi’i dilyn yn llawn a bod yr holl wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd drwy’r broses wedi cael ei hystyried. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o’r effeithiau addysgol, ariannol, cymunedol ac ieithyddol, ynghyd â’r opsiynau amgen rhesymol a’r sylwadau a’r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu.<br><br>Er bod rhai ymatebwyr wedi galw am atal neu ohirio’r broses neu ailystyried y cynnig, barn y Cyngor yw bod y cynnig wedi ei asesu yn unol â’r gofynion statudol perthnasol.<br><br>Datblygwyd y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn mewn ymateb i nifer o heriau sy’n wynebu’r ysgol. Yn benodol, nodir niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o lefydd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy’n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy’n cyflwyno heriau addysgol. Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.<br>Mae’r Cyngor o’r farn y byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas; |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | • Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

## Thema 7: Opsiynau Amgen

7.1 Gofyn am roi ystyriaeth lawn i opsiynau amgen

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n galw ar y Cyngor i ymchwilio ac asesu pob opsiwn amgen rhesymol cyn bwrw ymlaen ar y cynnig i gau’r ysgol. Mynegodd gwrthwynebwyr y farn nad oedd pob opsiwn posibl wedi'i archwilio'n llawn, gan annog y penderfynwyr i roi ystyriaeth gwirioneddol lawn i bob opsiwn amgen ac adnabod gwerth yr ysgol cyn penderfynu ei chau.<br><br>Awgrymwyd nifer o opsiynau amgen gan wrthwynebwyr, gan gynnwys ffedereiddio ag ysgolion eraill, trefniadau arweinyddiaeth ar y cyd, rhannu staff neu adnoddau, a datblygu partneriaethau neu drefniadau cydweithio gydag ysgolion cyfagos. Dadleuodd rhai y gallai model ffedereiddio ddarparu arbedion i'r Cyngor tra'n cynnal manteision addysgol i ddysgwyr.<br><br>Galwyd hefyd am ystyried mentrau cymunedol fel ffyrdd posibl o gefnogi dyfodol yr ysgol. Nododd rhai ymatebwyr fod y gymuned yn barod i | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fel rhan o'r adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn, rhoddwyd ystyriaeth i ystod o opsiynau amgen cyn dod i gasgliad ar y cynnig presennol. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r opsiynau hyn cyn dechrau'r ymgynghoriad statudol, ac amlinellwyd y gwaith hwnnw yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Papur Cynnig. Roedd yr opsiynau a aseswyd yn cynnwys, ymhlith eraill, gwneud dim, ffederaleiddio Ysgol Baladeulyn gydag ysgol gyfagos, ffederaleiddio ochr yn ochr â sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, sefydlu ysgol aml-safle a datblygu defnyddiau addysgol arbenigol eraill ar gyfer safle'r ysgol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol ac i gyfleoedd ar gyfer cydleoli gwasanaethau eraill, megis canolfan neu uned iaith ar y safle. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r un o'r opsiynau hyn yn cynnig datrysiad cynaliadwy gan nad oedd tystiolaeth y byddent yn arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr nac |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| gydweithio gyda'r Cyngor i archwilio datrysiadau cynaliadwy i gadw'r ysgol ar agor. Tynnwyd sylw at ffyrdd amgen o wneud defnydd o asedau presennol yr ysgol, gan gynnwys ehangu defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol ryfhau ei rôl yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o'i gwerth.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at botensial Ysgol Baladeulyn i gyfrannu at ddarpariaeth addysgol ehangach yn yr ardal, gan y gallai fod yn adnodd gwerthfawr i ysgolion cyfagos neu i ddysgwyr a allai elwa ar amgylchedd addysgol llai. Nododd un ymatebydd hefyd fod adeilad yr ysgol yn meddu ar rinweddau ymarferol o safbwynt addasu i effeithiau newid hinsawdd, gan alluogi addysgu i barhau yn ystod cyfnodau o dywydd poeth iawn. | yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â llefydd gweigion sylweddol, dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang a chynaliadwyedd ariannol yr ysgol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, derbyniwyd cynigion ac opsiynau ychwanegol gan ymgynghoreion. Rhoddwyd ystyriaeth lawn iddynt hefyd, a chynhaliwyd gwerthusiad pellach o’r opsiynau amgen ochr yn ochr â'r opsiynau a aseswyd yn wreiddiol. Mae manylion yr opsiynau a ystyriwyd, ynghyd â chanlyniadau'r gwerthusiad hwnnw, wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol perthnasol. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.<br><br>Yn dilyn y gwaith gwerthuso hwn, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiynau amgen a ystyriwyd yn darparu ymateb digonol na chynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Er enghraifft, ni ragwelwyd y byddai opsiynau megis ffederaleiddio neu ysgol aml-safle ynddynt eu hunain yn arwain at gynnydd ystyrlon yn nifer y dysgwyr nac yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n ymwneud â'r lefel uchel o leoedd gwag, y rhagamcanion niferoedd isel parhaus a'r costau cysylltiedig.<br><br>Drwy gydol y broses statudol, dilynodd y Cyngor y gofynion a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth a thystiolaeth berthnasol, gan gynnwys yr asesiadau effaith, yr opsiynau amgen a ystyriwyd, a'r sylwadau a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu statudol.<br>Yn sgil hynny, daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yw'r opsiwn a fyddai’n darparu'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau a nodwyd, sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o leoedd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol. |

7.2 Cynllun adfer i ysgolion bach

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau'n dadlau na fydd Ysgol Baladeulyn yn cael cyfle digonol i geisio adfer neu gynyddu ei niferoedd cyn i'r cynnig gael ei gyflwyno.<br><br>Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Cyngor weithredu cynllun cynaliadwyedd neu gynllun adfer dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd er mwyn rhoi amser i'r ysgol ymateb i'r heriau sy'n ei hwynebu a cheisio sefydlogi niferoedd y dysgwyr. Mynegwyd y farn y byddai cyfnod o'r fath yn galluogi'r Cyngor i asesu cynaliadwyedd yr ysgol dros gyfnod hirach, yn hytrach na gwneud penderfyniad ar sail amgylchiadau tymor byr.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at nifer o gamau y gellid eu hystyried yn ystod cyfnod adfer o'r fath, gan gynnwys ymgysylltu â theuluoedd lleol ac hyrwyddo'r ysgol. Awgrymodd rhai gwrthwynebwyr y posibilrwydd o sefydlu uned arbenigol ar safle'r ysgol yn ystod y cyfnod, tra'n parhau i ddarparu addysg brif ffrwd, gyda'r farn y gallai hyn gefnogi cynaliadwyedd yr ysgol a’r posibilrwydd o ail-adeiladu niferoedd. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau, fodd bynnag, ni all y Cyngor ymrwymo i beidio ag ystyried dyfodol yr ysgol am gyfnod estynedig o’r fath, gan y byddai hynny'n cyfyngu ar ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol<br><br>Datblygwyd y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan roi ystyriaeth i’r ffactorau statudol perthnasol, y dystiolaeth a gasglwyd, a’r sylwadau a dderbyniwyd drwy’r broses statudol.<br><br>Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi bod yn gostwng ers gyfnod estynedig, yn arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Ionawr 2026.<br><br>Nodir bod niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o leoedd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy’n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a’r tymor hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy’n cyflwyno heriau addysgol. Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Mae’r Cyngor o’r farn y byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• ymateb i’r niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Baladeulyn, ynghyd â’r rhagamcanion sy’n parhau’n isel a’r ganran uchel o leoedd gweigion;<br>• cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion mewn amgylchedd addysgol sydd â mwy o ddysgwyr o’r un oedran; a<br>• lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir.<br><br>Fel rhan o'r adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn, nodir y rhoddwyd ystyriaeth i ystod o opsiynau amgen cyn dod i gasgliad ar y cynnig presennol, gan gynnwys yr opsiwn i sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar safle Ysgol Baladeulyn. Cynhaliwyd gwerthusiad o’r opsiwn hwn cyn dechrau’r ymgynghoriad statudol, ac amlinellwyd y gwaith hwnnw yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Papur Cynnig.<br><br>Roedd yr opsiwn yma yn cynnig parhau darpariaeth brif ffrwd Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle’r ysgol.<br><br>Gwerthuswyd yr opsiwn amgen hwn yn erbyn nifer o ffactorau, sef niferoedd dysgwyr a lleoedd gweigion, maint dosbarthiadau ac amrediad oedran, arweinyddiaeth a staffio, adnoddau ariannol, y gymuned, yr iaith Gymraeg a ffactorau daearyddol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i’r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, trefniadau teithio a’r gymuned. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Daethpwyd i’r casgliad na fyddai’r opsiwn yn ymateb yn ddigonol i’r prif heriau sy’n wynebu Ysgol Baladeulyn, a ni ragwelwyd y byddai’r opsiwn yn cynyddu niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, rhagwelwyd y byddai niferoedd isel, dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang yn parhau, ynghyd â’r heriau ariannol cysylltiedig.<br><br>Ar sail y gwerthusiad hwn, ni ddaethpwyd i’r casgliad bod yr opsiwn hwn yn darparu sail ddigonol i newid y cynnig nac i ohirio penderfyniad terfynol y cynnig. Mae’r Cyngor yn hyderus bod yr opsiwn wedi cael ystyriaeth lawn fel rhan o’r broses statudol, a gynhaliwyd yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |

## Thema 8: Heriau i’r Broses Statudol a Sail y Cynnig

8.1 Beirniadaeth ar sail y cynnig

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau'n cwestiynu'r achos dros y cynnig, gan ddadlau nad oedd wedi'i ddangos yn ddigonol mai cau Ysgol Baladeulyn yw'r ateb gorau.<br><br>Mynegwyd pryder nad yw'r arbedion ariannol a ddisgwylir o'r cynnig yn debygol o fod yn sylweddol yn y tymor hir, yn enwedig wrth ystyried costau cludo dysgwyr i Ysgol Talysarn. Dadleuodd rhai gwrthwynebwyr fod y cynnig yn rhoi gormod o bwyslais ar ystyriaethau ariannol, gan gynnwys cost y pen a niferoedd presennol a rhagamcanion y dysgwyr, heb roi digon o sylw i effeithiau ehangach ar y gymuned. Mynegwyd y farn na ddylid trin | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi’i seilio ar gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang a rhagamcanion sy’n dangos y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn yw'r cynnig fwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran |

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
| --- | --- |
| addysg fel mater ariannol yn unig nac asesu gwerth ysgol ar sail niferoedd dysgwyr neu ei chostau.<br><br>Nodwyd gan rai ymatebwyr y dylai buddiannau a dyfodol plant fod wrth wraidd unrhyw benderfyniad, gan bwysleisio bod gan ddysgwyr hawl i addysg sy'n adlewyrchu eu cymuned a'u diwylliant lleol, yn ogystal â hawl i fynychu eu hysgol leol. Mynegwyd hefyd y farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyfraniad yr ysgol at gynaliadwyedd y gymuned, llesiant dysgwyr a'r Gymraeg. Yn ogystal, galwyd am ailystyried y polisi o ad-drefnu addysg a chau ysgolion bach ar sail ystyriaethau cyllidol yn unig. Cyfeiriwyd hefyd at bresenoldeb teuluoedd ifanc yn y gymuned, gyda rhai gwrthwynebwyr yn nodi bod potensial gwirioneddol i niferoedd yr ysgol gynyddu yn y blynyddoedd i ddod. | uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:<br>• Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn, ynghyd â rhagamcanion sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;<br>• Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir.<br><br>Yn ogystal, noder nad ystyriaethau ariannol yn unig a arweiniodd at yr adolygiad o Ysgol Baladeulyn. Cynhaliwyd yr adolygiad oherwydd y nifer o heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, lefel uchel o lefydd gweigion a heriau o ran cynaliadwyedd hirdymor. Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i ystod eang o ffactorau, gan gynnwys yr effeithiau posibl ar y gymuned, y Gymraeg a llesiant, yn ogystal â'r goblygiadau ariannol. |

8.2 Effaith y cynnig ar yr ysgol amgen a'r ysgolion cyfagos

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|
| Nodwyd yn rhai gwrthwynebiadau bod Ysgol Talysarn eisoes yn gweithredu'n agos at ei chapasiti, ac y dylid cynnal asesiad llawn, fesul grŵp blwyddyn, o effaith trosglwyddo holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn i'r ysgol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mynegwyd pryder ynghylch yr effaith bosibl ar gapasiti'r ysgol, yr angen i newid trefniadau dosbarthiadau, a'r goblygiadau y gallai hyn eu cael ar lefelau staffio, adnoddau addysgol, gofod dysgu, lles dysgwyr a'r cymorth a ddarperir iddynt.<br><br>Codwyd hefyd bryder ynghylch yr effaith bosibl ar ysgolion cyfagos yn fwy cyffredinol, gan nodi y gallent cael eu gorlwytho be byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Capasiti Ysgol Talysarn yw 91 o lefydd ar gyfer dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 a 13 o lefydd Meithrin.<br><br>Yn Ionawr 2026, roedd 81 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 a 17 o ddisgyblion Meithrin yn mynychu Ysgol Talysarn.<br><br>Ar sail ffigyrau CYBLD Ionawr 2026, rhagwelir yn mis Medi 2026 y bydd 4 o lefydd gweigion (a 3 o lefydd gwag ar gyfer y Meithrin) yn Ysgol Talysarn. Ar sail y wybodaeth yma, rhagwelir y bydd digon o gapasiti ar gyfer dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sydd yn byw yn nalgylch Baladeulyn.<br><br>Cydnabyddir os byddai holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn penderfynu symud i Ysgol Talysarn, mae'n bosibl y bydd nifer y dysgwyr yn fwy na'r capasiti. Pe byddai hyn yn digwydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrin â'r ceisiadau mynediad yn unol â'i Bolisi Mynediad i Ysgolion ac yn cydymffurfio â Chôd Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn fodlon bod capasiti'r ysgol yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol.<br><br>Petai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu, a dysgwyr yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn, mater i gorff llywodraethol Ysgol Talysarn fyddai i benderfynu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Mae data cyfredol yr Adran Addysg yn nodi bod capasiti ar hyn o bryd yn holl ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle. Mae canrannau’r llefydd gweigion yn yr ysgolion cyfagos yn amrywio rhwng 9% a 44%, ac felly nid oes unrhyw ysgol yn orlawn ar hyn o bryd. Nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi’i seilio ar dystiolaeth ehangach sy’n ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy’n parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir. |

8.3 Gweithrediad y Cyngor o’r broses statudol

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn mynegi pryder ynghylch y modd y cynhaliwyd y broses statudol a'r camau a gymerwyd cyn cyflwyno'r cynnig.<br><br>Dadleuodd rhai ymatebwyr nad oedd digon o ymgysylltu nac ymgynghori wedi digwydd gyda thrigolion lleol, rhieni a rhanddeiliaid cymunedol yn ystod y broses, a mynegwyd hefyd gan rai gwrthwynebwyr y farn fod penderfyniad i gau'r ysgol eisoes wedi'i wneud cyn dechrau'r broses ymgynghori ffurfiol.<br><br>Mynegwyd hefyd y farn nad oedd y Cyngor wedi gwneud digon i fynd i'r afael â'r prif her sy'n wynebu'r ysgol, sef y niferoedd isel o ddysgwyr, nac | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Nodir bod y Cyngor wedi dilyn y broses statudol a bennir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Ar 11 Chwefror 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn a rhanddeiliaid perthnasol eraill ynghylch dyfodol yr ysgol, yn sgil pryderon ynghylch niferoedd disgyblion yr ysgol. Yn dilyn hynny, |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| wedi rhoi cyfle digonol i'r ysgol geisio adfer ei niferoedd cyn cychwyn y broses statudol. Nododd rhai gwrthwynebwyr fod y Cyngor wedi dewis bwrw ymlaen â'r cynnig ar ôl cyfnod o ostyngiad yn niferoedd y dysgwyr yn hytrach nag ystyried mesurau posibl i gefnogi'r ysgol a cheisio cynyddu'r niferoedd.<br><br>Codwyd hefyd bryder ynghylch effaith y broses statudol ar hyfywedd yr ysgol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r ansicrwydd ynghylch dyfodol Ysgol Baladeulyn fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynghylch cofrestru eu plant yn yr ysgol ac nad oedd effaith y broses statudol ar niferoedd y dysgwyr wedi'i hystyried yn llawn. Cyfeiriwyd yn benodol at y farn bod rhieni wedi cael gwybod am y posibilrwydd o gynnig i gau'r ysgol cyn gwneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant, a bod hyn wedi lleihau hyder rhai rhieni i ddewis yr ysgol, gan gyfrannu ymhellach at y gostyngiad yn y nifer o ddysgwyr. | sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol i ystyried sefyllfa'r ysgol ac ystod o opsiynau posibl ar gyfer ei dyfodol.<br><br>Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gefnogi argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.<br><br>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026. Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriwyd yr ymatebion a’r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd, a lluniwyd Adroddiad Ymgynghori yn unol â gofynion y Cod. Roedd yr adroddiad yn crynhoi’r sylwadau a dderbyniwyd, yn nodi ymateb y Cyngor iddynt ac yn cofnodi’r ystyriaeth bellach a roddwyd i’r cynnig a’r opsiynau amgen. Cyflwynwyd yr adroddiad hwnnw i'r Cabinet, a phenderfynodd y Cabinet ganiatáu cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig.<br><br>Yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn rhoi cyfle i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig. Mae'r adroddiad gwrthwynebu hwn yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn nodi ymateb y Cyngor iddynt er mwyn cynorthwyo'r Cabinet wrth ystyried y mater.<br><br>Nid oedd y penderfyniad i gynnal ymgynghoriad statudol, na’r penderfyniad dilynol i gyhoeddi hysbysiad statudol, yn benderfyniad terfynol i weithredu’r cynnig. Camau o fewn y broses statudol oedd y rhain, ac roeddent yn galluogi’r Cyngor i gasglu ac ystyried sylwadau, tystiolaeth, |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | opsiynau amgen a gwrthwynebiadau cyn i’r Cabinet wneud penderfyniad terfynol.<br><br>Mae’r Cyngor yn hyderus bod y broses wedi’i chynnal yn ddiduedd ac nad oedd penderfyniad terfynol wedi’i wneud ymlaen llaw. Rhoddwyd ystyriaeth i’r wybodaeth, y dystiolaeth a’r sylwadau perthnasol ar bob cam o’r broses.<br><br>Bydd y Cabinet yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gweithredu’r cynnig ai peidio ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu a’r holl wybodaeth berthnasol sydd ger ei fron.<br><br>Yn ogystal, mae’r Cyngor yn cydnabod bod sefydlogrwydd a sicrwydd yn ffactorau pwysig i rieni wrth wneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant, ac y gall cyfnodau o ansicrwydd greu pryder i deuluoedd. Yn y cyd-destun hwn, nodir bod y Cyngor yn adolygu dyfodol Ysgol Baladeulyn gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, patrymau dalgylch, a rhagamcanion niferoedd yn y tymor canolig a’r tymor hir.<br><br>Mae nifer y dysgwyr yn Ysgol Baladeulyn wedi bod yn gostwng dros gyfnod estynedig, gyda dirywiad amlwg dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd y gostyngiad parhaus hwn yn destun pryder cynyddol o ran niferoedd a chynaladwyedd yr ysgol, ac mae’r rhagamcanion ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn dangos bod y patrwm hwn yn debygol o barhau. |

8.4 Herio cyfreithlondeb y cynnig ac ôl-ddefnydd y safle

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
| --- | --- |
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn codi pryderon ynghylch cyfreithlondeb a thryloywder y cynnig, yn ogystal ag ôl-ddefnydd safle'r ysgol.<br><br>Mynegodd rhai ymatebwyr y farn fod y cynnig i gau'r ysgol yn gysylltiedig â'r posibilrwydd y gallai'r safle gael ei werthu a'i ail-ddatblygu at ddibenion llety gwyliau. Cwestiynwyd hefyd a fyddai unrhyw ddefnydd o'r fath yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth sy'n ymwneud ag Asedau o Werth Cymunedol a'r Gymuned i Gynnig, sy'n diogelu asedau cymunedol rhag cael eu gwerthu neu eu hailbwrpasu heb broses briodol, ac os yw'r term 'Moderneiddio Addysg' yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau cynllun busnes o'r fath. Nododd rhai ymatebwyr y gallai datblygiad o'r fath gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal drwy gynyddu'r ddarpariaeth o lety gwyliau yn hytrach na thai ar gyfer trigolion lleol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Nodir nad yw safle'r ysgol ar werth ar hyn o bryd, ac nid yw'r cynnig yn gysylltiedig ag unrhyw gynllun nac ymrwymiad i werthu'r safle na'i ailddatblygu at ddiben penodol, gan gynnwys llety gwyliau.<br><br>Nodir bod y Cyngor wedi dilyn y broses statudol a bennir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), a chafodd yr ysgol ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad oherwydd bod nifer o heriau yn ei wynebu, gan gynnwys niferoedd dysgwyr yr ysgol yn gostwng yn difrifol a oedd wedi arwain at sefyllfa argyfyngus. Nid yw'r term "Moderneiddio Addysg" yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau unrhyw gynllun busnes sy'n ymwneud â defnydd arall o'r safle.<br><br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer ystyried a datblygu opsiynau ar gyfer dyfodol y safle. Byddai'r polisi hwn yn llywio trafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.<br><br>Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch dyfodol y safle yn cael eu gwneud drwy brosesau a llywodraethiant perthnasol y Cyngor, gan ystyried polisïau, gofynion cyfreithiol a buddiannau'r gymuned leol. Nid yw unrhyw ddefnydd penodol o'r safle yn y dyfodol yn rhan o'r cynnig presennol ac nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud ynghylch ôl-ddefnydd yr adeilad. |

8.5 Digonolrwydd y dogfennau ymgynghori

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Mynegwyd y farn nad oedd yr adroddiad ymgynghori yn rhoi digon o bwyslais ar yr hyn y gallai dysgwyr ei golli pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar les dysgwyr a dysgwyr bregus. Dadleuodd rhai ymatebwyr hefyd nad oedd manteision mynychu ysgol fach nac ychwaith manteision cadw Ysgol Baladeulyn ar agor wedi'u hamlygu na'u hystyried yn ddigon teg o fewn y ddogfennaeth.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at ddatganiadau yn yr adroddiad ymgynghori ynghylch darparu profiadau teg i bob dysgwr. Roedd rhai gwrthwynebwyr o'r farn bod yr ymatebion a gyflwynwyd gan y Cyngor yn aneglur ac yn gallu cael eu dehongli fel pe baent yn awgrymu diffygion yn y ddarpariaeth addysgol bresennol yn Ysgol Baladeulyn. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cyngor yn fodlon fod y broses statudol a’r holl ddogfennaeth a luniwyd fel rhan o’r broses wedi cydymffurfio â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae’r Cyngor yn fodlon bod yr ymatebion a’r safbwyntiau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu wedi cael eu crynhoi a’u hystyried yn unol â’r trefniadau a’r gofynion statudol perthnasol.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), lluniwyd Adroddiad Ymgynghori yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol. Roedd yr adroddiad hwnnw yn crynhoi’r ymatebion a’r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn cynnwys ymateb y Cyngor i’r materion hynny, yn unol â’r gofynion statudol perthnasol. Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori i Gabinet Cyngor Gwynedd i’w ystyried, ac ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad hwnnw a’r holl wybodaeth berthnasol arall, penderfynodd y Cabinet gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig a chynnal cyfnod gwrthwynebu statudol.<br><br>Mae’r Adroddiad Gwrthwynebu presennol wedi’i lunio yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mae’n cynnwys crynodeb o’r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i’r materion a godwyd. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan Gabinet Cyngor Gwynedd ochr yn ochr â’r holl wybodaeth berthnasol arall cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y cynnig. |

8.6 Digonolrwydd yr asesiadau effaith

| **Crynodeb o’r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau'n cwestiynu a oedd asesiadau effaith y cynnig wedi ystyried yn ddigonol holl oblygiadau posibl cau Ysgol Baladeulyn.<br><br>Mynegwyd y farn nad oedd digon o bwyslais wedi'i roi ar yr effaith emosiynol bosibl ar staff, dysgwyr a theuluoedd yr ysgol, nac ar yr effaith ar les dysgwyr. Cyfeiriwyd hefyd at bryder nad oedd effaith lawn y cynnig ar deuluoedd sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol wedi cael ei hasesu'n ddigonol.<br><br>Dadleuodd rhai gwrthwynebwyr fod angen rhoi mwy o sylw i'r effaith bosibl ar gymunedau gwledig, gan nodi bod ysgolion fel Ysgol Baladeulyn yn sylfaen sy'n cynnal y gymuned leol ac y byddai ei chau yn gwanhau'r gymuned.<br><br>Mynegwyd hefyd y farn bod angen rhoi mwy o bwyslais ar asesiad ieithyddol y cynnig, gan gynnwys ei effaith ehangach ar y Gymraeg a'i gyfraniad at nodau strategol Llywodraeth Cymru. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cyngor yn fodlon bod y broses statudol, ynghyd â’r holl ddogfennaeth a luniwyd fel rhan o’r broses, wedi cydymffurfio â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae’r Cyngor hefyd yn fodlon bod yr holl asesiadau effaith perthnasol wedi’u cynnal, eu hystyried a’u diweddaru cyn, yn ystod ac yn dilyn y cyfnodau ymgynghori, yn unol â’r gofynion statudol a’r trefniadau perthnasol.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cyhoeddwyd pecyn o asesiadau effaith yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, gan gynnwys asesiadau o effaith debygol y cynnig ar y gymuned, trefniadau teithio dysgwyr, ansawdd a safonau addysg, deddf llesiant, cydraddoldeb, a’r Gymraeg. Lluniwyd yr asesiadau hyn er mwyn asesu effeithiau posibl y cynnig, gan ystyried y dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ynghyd ag unrhyw bryderon a godwyd gan ymgyngoreion. Lle’n briodol , nodwyd mesurau lliniaru i leihau unrhyw effaith andwyol posibl. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau hyn lle bo angen yn sgil y sylwadau a’r wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.<br><br>Cyflwynwyd y pecyn asesiadau effaith fel atodiad i adroddiad y Cabinet, ac yn dilyn ystyriaeth o gynnwys yr asesiadau, ynghyd â’r holl wybodaeth berthnasol arall, gan gynnwys yr wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad ymgynghori a’r adroddiad i’r Cabinet, penderfynodd y Cabinet gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr a cymeradwyo symud ymlaen i’r cyfnod gwrthwynebu statudol. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol, mae’r asesiadau effaith Cymunedol, Llesiant, Cydraddoldeb ac Ieithyddol wedi cael sylw pellach ac wedi’u diweddaru eto, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Bydd yr asesiadau hyn yn cael eu cyhoeddi a’u hystyried gan Gabinet Cyngor Gwynedd ochr yn ochr â’r ddogfennaeth berthnasol arall, cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y cynnig. |

8.7 Cyfeiriad polisïau addysg a chyfeiriad Moderneiddio Addysg yng Ngwynedd

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryder ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â chyfeiriad polisïau addysg. Nodwyd bod ysgolion lleol yn adnoddau gwerthfawr i gymunedau gwledig ac nad yw'r cynnig, ym marn rhai gwrthwynebwyr, yn adlewyrchu cyfrifoldeb y Cyngor i ddiogelu buddiannau cymunedau gwledig na'r Gymraeg.<br><br>Mynegwyd hefyd bryderon ynghylch effaith polisïau ad-drefnu a gwaith moderneiddio addysg ar gymunedau gwledig, gyda rhai ymatebwyr yn cwestiynu a fu gormod o ad-drefnu ac a oes gormod o bwyslais wedi'i roi ar ddulliau newydd o ddarparu addysg. Cyfeiriwyd hefyd at bolisïau a phenderfyniadau blaenorol ynghylch cau ysgolion, gyda rhai yn dadlau y dylid ailystyried y dull gweithredu hwn.<br><br>Yn ogystal, mynegwyd barn fod angen ystyried ffyrdd amgen o gynnal ysgolion bach, gan gyfeirio at y polisi cyllido ysgolion, gyda galwad ar Lywodraeth | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn cyflwyno trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig drwy sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond yn hytrach fod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol. Mae Ysgol Baladeulyn wedi’i dynodi’n ysgol wledig at ddibenion y Cod, ac o ganlyniad mae’n ofynnol dilyn cyfres ychwanegol o weithdrefnau a meini prawf wrth ystyried unrhyw gynnig i’w chau.<br><br>Datblygwyd y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn mewn ymateb i nifer o heriau sy’n wynebu’r ysgol. Yn benodol, nodir niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o lefydd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy’n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cymru i ailystyried y trefniadau cyllido presennol, gan ystyried y pwysau a osodir ar benaethiaid wrth reoli cyllidebau ysgolion. | oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy’n cyflwyno heriau addysgol. Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.<br>Mae’r Cyngor o’r farn y byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

8.8 Herio’r polisi mynediad sy’n caniatáu rhieni i ddewis ysgol eu plentyn

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nododd rhai gwrthwynebwyr y farn y dylai'r Cyngor ymchwilio'n fwy trylwyr i'r rhesymau dros y niferoedd isel o ddysgwyr a pham fod rhai teuluoedd yn dewis anfon eu plant i ysgolion eraill yn hytrach na'u hysgol leol.<br>Awgrymwyd y gallai ffactorau megis ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol, trefniadau trafnidiaeth neu faterion mynediad eraill fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhieni, ac y dylid deall y rhesymau hyn yn llawn a rhoi | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau. Fodd bynnag, mae trefniadau derbyn ysgolion yn fater a reoleiddir gan ddeddfwriaeth a chodau statudol cenedlaethol. Mae’r Cyngor, fel Awdurdod Derbyn, yn gweithredu’r trefniadau hyn yn unol â’r gofynion statudol hynny, ac felly nid yw’r cynnig hwn yn darparu sail i ddiwygio’r Polisi Derbyn na’r meini prawf derbyn perthnasol. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| ystyriaeth i fesurau priodol i fynd i'r afael â hwy cyn dod i gasgliadau ynghylch hyfywedd yr ysgol.<br><br>Dadleuodd rhai gwrthwynebwyr na ddylid defnyddio'r ffaith fod dysgwyr yn mynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylch fel tystiolaeth ynddi'i hun nad oes gan yr ysgol leol ddyfodol.<br><br>Mynegwyd hefyd y farn y dylai'r Cyngor archwilio'r rhesymau dros y dewisiadau hyn yn fanylach ac ystyried a oes angen adolygu trefniadau mynediad er mwyn annog mwy o ddysgwyr i fynychu eu hysgol dalgylch. | Mae trefniadau derbyn ysgolion yn cael eu gweinyddu yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion y Cyngor a’r fframwaith statudol cenedlaethol perthnasol. O dan y polisi, mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae’n gwasanaethu. Mae dalgylchoedd ysgol yn cael eu diffinio er mwyn gallu cynllunio darpariaeth addysg, lleoedd ac adnoddau’n effeithiol ar draws y Sir. Nid yw’r ffiniau hyn yn seiliedig ar ffiniau cymunedol, ond ar y meini prawf swyddogol sy’n sail i ddyrannu lleoedd a chynnal darpariaeth.<br><br>Mae gan rieni a gofalwyr yr hawl i fynegi dewis ynghylch yr ysgol y maent yn dymuno i’w plentyn ei mynychu, yn amodol ar gapasiti yr ysgolion a’r meini prawf derbyn a nodir yn y polisi. Caiff y trefniadau hyn eu cymhwyso’n gyson ar draws y Sir. Nodir fod rhieni’n gwneud dewisiadau addysgol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys profiad personol, darpariaethau gofal, a dewisiadau teuluol.<br><br>Yn ogystal, nid yw'r cynnig yn seiliedig yn unig ar y ffaith fod rhai dysgwyr yn mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch, ond ar ystyriaeth gyffredinol o'r ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd a hyfywedd yr ysgol yn y tymor hir, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy’n parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir. |